**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 16-01(p5)**

**Dyddiad:** 28 Tachwedd 2001
**Amser:** 14.00 - 17.30
**Lleoliad:** Ystafell Pwyllgor 1, Cynulliad Cenelaethol, Bae Caerdydd
**Teitl:** Ariannu Cyngor Sir Caerdydd/yr Awdurdod Porthladd yn 2000-01 a gwybodaeth arall

**Pwrpas**

1. Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar wariant alldro Cyngor Sir Caerdydd ("y Cyngor") yn 2000-01 a rhoi rhagor o wybodaeth ar faterion heb eu penderfynu, ar gais Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

**Argymhellion**

2. Bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn nodi:

- y sefyllfa ar hyn o bryd o ran gwariant yn 2000-01 a'r rhagolwg bras ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd;
- y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ar y rhain unwaith y bydd cytundeb ynghylch yr alldro terfynol - ond, yn ôl y wybodaeth sydd ar y gael ar hyn o bryd, erys cyfanswm y gwariant yn agos at ragolwg 5 mlynedd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd;
- y cyngor pellach ar faterion heb eu penderfynu.

**Cefndir**

1. Fel rhan o'r gwaith o ddiddymu Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, llofnodwyd Memoranda Dealltwriaeth ar 1 Ebrill 1999 ac ar 18 Hydref 1999 gyda'r Cyngor. Ffurfiolwyd y rhain mewn dau Gytundeb adran 165 (gweler hefyd y rhan ar gydymffurfio isod).
2. Mae'r **'Harbour Authority s165 Agreement'** yn ymwneud, yn bennaf, â'r Cyngor yn mabwysiadu swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol o dan Deddf Morglawdd 1993, gan gynnwys yr hyn y cyfeirir ato fel yr ymgymeriad ('the undertaking'). O dan y Cytundeb, rhaid i'r Cynulliad roi arian i'r Cyngor i dalu am gostau a ysgwyddir wrth gyflawni'r ymgymeriad a rhai swyddogaethau eraill - ar yr amod nad oeddent yn gostau afresymol neu amhriodol. Mae'r Cytundeb hefyd yn cyfeirio at ariannu nifer o gontractau Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd nad oedd wedi'u cwblhau ac yr oedd y Cyngor wedi cytuno i barhau â nhw.
3. Mae'r **'non-development assets s165 Agreement'** yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer

ariannu unrhyw gostau gwirioneddol sy'n deillio o drosglwyddo'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny, cwblhau prosiectau annorffenedig a thalu cronfeydd adfywio a phrosiectau: ymhlith y rhain mae (ond heb gyfyngiad) gwella tirlun y Morglawdd, ffordd yn arwain at Glwb Hwylio Caerdydd, gosod a datblygu Parc Hamadryad a Chynllun *Concierge* Butetown.

**Ariannu**

4. Ym mis Mawrth 2000, pennodd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, yr arian net y byddai ar y Cyngor ei angen yn 2000-01 a'r 4 blynedd dilynol. Roedd hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon y Gorfforaeth ar y pryd. Mae colofn gyntaf y tabl yn Atodiad 1 yn rhoi'r wybodaeth berthnasol.
5. Cyfrifwyd y cyllidebau gan ddefnyddio amcangyfrifon o gostau a oedd yn hysbys neu gostau cyfrifadwy. Roeddent yn cynnwys rhagdybiaeth am lefel llithriant. Nid oeddent yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer Treth ar Werth (gweler isod) nac ychwaith unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwariant ychwanegol a fyddai'n deillio o geisiadau ychwanegol a/neu wariant a oedd heb ei ragweld.
6. Ym mis Mehefin 2000, lluniwyd amcangyfrifon alldro terfynol Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Nodir y rhain yn yr ail golofn yn Atodiad 1.
7. Yn ystod y misoedd diwethaf, fel y mae'r Cyngor wedi bod yn rhyddhau'r manylion terfynol ar wariant yn 2000-01, rydym wedi bod yn trafod â'r Cyngor yr alldro terfynol sy'n debygol. Rydym bron â gorffen, ond mae angen cytuno ar rai manylion, gan gynnwys eu cysoni â rhagolygon terfynol y Gorfforaeth. Mae colofn 3, Atodiad 1, yn nodi'r ffigurau alldro dros dro.

**Esbonio amrywiadau (pedwerydd colofn Atodiad 1)**

8. ***A: Awdurdod Porthladd*** - mae'n cynnwys:

- £1.142m a drosglwyddwyd o gostau sefydlog yr Awdurdod Porthladd i Brosiect y Morglawdd - y llinell garthu i dalu am lawer o gostau cynyddol y gwaith carthu: a
- oedi wrth brynu pibelli (y Gyllideb Costau Amrywiol)

1. ***B: Prosiect y Morglawdd*** - mae'n cynnwys:

- Oedi wrth dalu arian cadw contractau (bron i £1.5m wedi llithro i 2001-02);
- Ceisiadau draenio heb eu setlo o hyd (£1.133m yw'r ddarpariaeth a amcangyfrifir) a materion eraill yn ymwneud â draenio (£0.814) (Prosiect y Morglawdd - Llinell Arall);
- Tua £0.652m wedi llithro am fod y contract tirlunio'n hwyr yn dechrau; a
- Chostau cynyddol y gwaith carthu.

1. ***C: Memoranda Dealltwriaeth a phrosiectau eraill*** - mae'n cynnwys:

- Oedi wrth gychwyn rhai prosiectau wedi arwain at danwariant, ond gwnaed i fyny am hynny yn llawn gan dderbyniadau hwyr a'r ffaith fod mwy o arian wedi'i wario ar rai prosiectau.

1. Unwaith y bydd yr alldro ar gyfer 2000-01 yn derfynol, bydd modd adolygu'r proffiliau manwl ar gyfer 2001-02 a 2004-05. Gan gofio y bydd rhai newidiadau yng ngoleuni'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2000-01, TAW, a setliad terfynol ceisiadau ychwanegol, efallai y bydd aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn dymuno nodi'r proffil drafft bras yn Atodiad 2.

**TAW**

2. *Nid* yw TAW wedi'i gynnwys mewn proffilau cyllidebau am nad oedd modd ei gyfrif tan fod Cynllun Busnes Awdurdod Porthladd wedi'i baratoi a bod y Cyngor wedi dod i gytundeb gyda Tollau Tramor a Chartref. Credwyd y byddai modd cynnwys y TAW y bydd yn debygol y bydd y Cynulliad yn ei ariannu o fewn ffiniau'r camgymeriadau yn rhagolygon gwariant Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.
3. Dylai aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd nodi bod y mater TAW yn un cymhleth a bod trafodaethau yn parhau. Dylai fod modd cynnwys y costau TAW a ysgwyddir yn 2000-01 a 2001-02 o fewn cyllideb y flwyddyn gyfredol.

**Cynnal a chadw Bae Caerdydd**

4. Gellir dehongli 'cynnal a chadw' ('maintenance') Bae Caerdydd mewn sawl ffordd. Yn ei adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 31 Hydref, rhoddodd y Gweinidog wybodaeth ar gost cynnal ansawdd y dwr; yn ôl amcangyfrif Cyngor Caerdydd, £1.5m yw ei cyllideb flynyddol (gan gynnwys costau staff) ar gyfer gwaith ansawdd dwr, a hynny'n ychwanegol at y costau cyfalaf a ysgwyddwyd rhwng 1 Ebrill a diwedd Awst 2001 (cyfanswm o tua £3.451 mewn perthynas ag ocsigeniad ac offer casglu algae/sbwriel). Mae hyn yn cynnwys monitro ansawdd dwr, algae, ocsigeniad, casglu sbwriel, planhigion sy'n niwsans a difa pla.
5. Daw ansawdd dwr o fewn y diffiniad ehangach hwnnw o'r gwasanaethau hynny sydd wedi'u darparu o dan y contract rheoli cyfleusterau. Mae Cytundeb a165 yr Awdurdod Harbwr yn gosod terfyn o ychydig dros £19.3 dros y cyfnod cychwynnol o 3 blynedd ar gost y rhain a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r Morglawdd a Rheoli'r Bae.

**Cynllun Busnes yr Awdurdod Porthladd**

6. Rydym yn dal i ddisgwyl dyddiad pendant ar gyfer derbyn Cynllun Busnes yr Awdurdod

Porthladd.

Y Pwyllgor Archwilio

7. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar hyn o bryd yn adolygu effeithiolrwydd y broses o ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben a pherfformiad y cyrff a'i dilynodd. Cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yr adolygiad o'r broses o ddirwyn y Gorfforaeth i ben gan gyflwyno adroddiad ym Mehefin 2001. Mae ail gam yr adolygiad, gan gynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa ariannol yn 2000-01, yn parhau.

**Cydymffurfio**

8. Dau Gytundeb rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd yn unol ag Adran 165 Deddf Cynllunio a Thir Llywodraeth Leol 1980 (fel y'i diwygiwyd) ar 27 Mawrth 2000 [*a adwaenir fel yr "Harbour Authority s165 Agreement" a'r "Non-development assets s165 Agreement"*];
9. Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau, Rhwymedigaethau ac Ymrwymiadau) 2000 [*yr oedd y gorchymyn hwn yn trosglwyddo o Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i'r cyrff dilynol perthnasol yr eiddo, yr hawliau, y rhwymedigaethau a'r ymrwymiadau priodol a oedd yn berthnasol i'r ymgymeriad a oedd wedi'i drosglwyddo i'r cyrff hynny gan y Cytundebau a165*];
10. Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2000 [*yr oedd hwn yn trosglwyddo i'r Cynulliad unrhyw hawliau a rhwymedigaethau a oedd yn deillio o'r Cytundebau a165 ac a oedd wedi'u breinio yng Nghorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd];* ac
11. Wedi'i ddirprwyo i'r portffolio Datblygu Economaidd.

**Themâu trawsbynciol**

12. Dim

**Camau i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd**

13. Nodi cynnwys y papur hwn a nodi y caiff rhagor o fanylion ar wariant eu darparu unwaith y bydd y cyfrifon ar gyfer 2000-01 wedi'u cwblhau.

## Yr Is-adran Polisi Economaidd

## Cangen 2

### Annex 1

**CARDIFF COUNTY COUNCIL ANNUAL BUDGET PROFILE 2000-01** **£m**

| | Est Provision March 2000 | CBDC Final Est June 2000 | Current Est Actual Spend | Variance between actual and CBDC Final |
|---|---|---|---|---|
| **A: Harbour Authority** | | | | |
| Fixed costs | 8.182 | 8.182 | 7.040 | -1.142 |
| Variable costs | 2.460 | 2.460 | 1.091 | -1.369 |
| *Receipts* | | | -0.006 | -0.006 |
| **A: Total** | **10.642** | **10.642** | **8.125** | **-2.517** |
| **B: Barrage Project** | | | | |
| Construction contract | 1.734 | 1.807 | 0.253 | -1.554 |
| Dredging | 2.497 | 2.497 | 5.013 | +2.516 |
| Property surveys | 0.052 | 0.050 | 0.018 | -0.032 |
| *Property Surveys Receipts* | | | -0.118 | -0.118 |
| Landscaping | 0.890 | 0.890 | 0.238 | -0.652 |
| Scouring Protection etc | 1.135 | 1.153 | 0.012 | -1.141 |
| Other | 4.598 | 4.240 | 1.612 | -2.628 |
| **B: Total** | **10.906** | **10.637** | **7.028** | **-3.609** |
| **C: MOU and Other Projects** | | | | |
| ***MOU :*** | | | | |
| Projects | 4.575 | 4.575 | 4.575 | = |
| Regeneration | 2.350 | 2.350 | 2.350 | = |
| *ERDF Receipt* | | | 0.000 | = |
| Ferry Road Land purchase | -5.950 | -5.950 | -5.429 | +0.521 |
| ***Other Projects:*** | | | | |
| Enhanced Dredging | 1.455 | 1.455 | 1.455 | = |
| Oval Basin | 0.538 | 0.539 | 0.470 | -0.069 |
| Harry Ramsden | 0.125 | 0.125 | 0.118 | -0.007 |
| Widowlands | 1.209 | 1.209 | 1.121 | -0.088 |
| Graving Dock | 0.178 | 0.173 | 0.329 | +0.156 |
| Grangemoor Park | 0.005 | 0.005 | 0.012 | +0.007 |
| Ferry Road | 0.297 | 0.297 | 0.042 | -0.255 |
| Hamadryad Waste M/Lic | | 0.007 | 0.000 | +0.007 |
| *Countryside Properties: site services* | 0.000 | 0.000 | 0.000 | = |
| *Countryside Properties: Legal* | 0.000 | 0.000 | 0.000 | = |
| *Countryside Properties: Receipts* | See receipts below | See receipts below | 0.000 | = |
| Ground water monitoring | 0.403 | 0.328 | 0.194 | -0.134 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bird/Fish Monitoring | 0.250 | 0.250 | 0.236 | -0.014 |
| Pumping Station & Misc | 0.194 | 0.237 | 0.126 | -0.111 |
| ***Receipts:*** | -1.010 | -1.010 | 0.000 | +1.010 |
| **C:Total** | **4.619** | **4.590** | **5.599** | **+1.009** |
| **D: VAT Total** | 0.000 | 0.000 | n/k | = |
| **E: Value of Additional Claims agreed and/or under consideration** | 0.000 | 0.000 | 1.132 | +1.132 |

***Budget Summary***

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A: Harbour Authority** | 10.642 | 10.642 | 8.125 | -2.517 |
| **B: Barrage Project** | 10.906 | 10.637 | 7.028 | -3.609 |
| **C: MOU and Other Projects** | 4.619 | 4.590 | 5.599 | +1.009 |
| **D: VAT** | 0.000 | 0.000 | N/K | = |
| **E: Value of additional claims agreed and/or under consideration** | 0.000 | 0.000 | 1.132 | +1.132 |
| **Total** | **26.167** | **25.869** | **21.884** | **-3.985** |
| ***Programme Slippage (net)*** | -4.750 | -4.750 | | |
| **Total (Net) Budget Profile** | **21.417** | **21.119** | **21.884** | **+0.765** |

## Annex 2

## CARDIFF CC FIVE YEAR EXPENDITURE PROFILE SUMMARY as @ 15 November 2001

| **Heading** | **2000-01 Actual Spend** | **Slippage to 2001-02** | **Additional Grant/ -Savings** | **2001-02 Final Acc Forecast*** | **2001-02** | **2002-03** | **First 3 yr Forecast** | **2003-04** | **2004-05** | **Five year Forecast** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A: Harbour Authority** | 8.125 | 0.096 | 0.000 | 13.631 | 13.727 | 8.976 | 30.828 | 8.976 | 8.976 | 48.780 |
| **B: Barrage Project *** | 7.028 | 4.858 | 0.187 | 2.192 | 7.237 | 1.512 | 15.777 | 0.000 | -4.347 | 11.429 |
| **C: MOU and Other Projects** | 5.599 | -0.934 | 0.320 | 2.812 | 2.198 | 2.568 | 10.365 | 0.838 | 0.861 | 12.064 |
| **D. VAT** | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **E. Additional Claims** | 1.132 | 0.000 | 0.632 | 0.000 | 0.632 | 0.040 | 1.804 | 0.000 | 0.000 | 1.804 |
| **Total** | **21.884** | **4.020** | **1.139** | **18.635** | **23.794** | **13.096** | **58.774** | **9.814** | **5.490** | **74.078** |
| **Programme Slippage (net)** | | | | | *-5.000* | *1.500* | *-3.500* | *2.000* | *1.500* | *0.000* |
| **Proposed Revised Budget Profile** | **21.884** | | | | **18.794** | **14.596** | **55.274** | **11.814** | **6.990** | **74.078** |
| *CCC Original Budget Profile*:* | *21.417* | *4.750* | | | *17.048* | *15.036* | *53.501* | *13.847* | *5.830* | *73.178* |
| **CBDC Final Account expectation*:** | **21.119** | **4.750** | | | **17.087** | **15.001** | **53.206** | **13.809** | **5.790** | **72.805** |
| ** NB. After deducting allowance for slippage* | | | | | | | | | | |
| **<u>Difference from CBDC expectation:</u>** | **<u>0.765</u>** | -0.730 | 1.139 | 1.548 | 1.707 | -0.405 | 2.068 | -1.995 | 1.200 | 1.273 |